PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 3 GORFFENNAF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Murphy, Dilwar Ali, Goddard, Caerhirfryn, Robson, Williams a/ac Wood |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Jacobsen, Taylor a Davies.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

3 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

4 : CAIS I DDEFNYDDIO CERBYDAU LLOGI PREIFAT TUK TUK.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod cais wedi dod i law am gymeradwyo'r defnydd o gerbydau Tuk Tuk fel cerbydau llogi preifat ar gyfer teithiau twristaidd yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd, ni ellir trwyddedu cerbydau Tuk Tuk gan nad ydynt yn bodloni Amodau Trwyddedu Cerbydau Llogi Preifat y Cyngor. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu ar y cais.

Nododd yr Aelodau y byddai'r cerbydau Tuk Tuk yn cael eu defnyddio at ddibenion twristaidd i'w harchebu ymlaen llaw, ac nid i'w llogi gan y cyhoedd. Rhoddwyd y manylion technegol i'r Aelodau. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith eu bod yn gerbydau trydanol heb allyriadau, a does ganddynt ddim ffenestri na drysau ac nid ydynt yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Dywedwyd wrth Aelodau y byddai amodau awgrymedig wedi'u hatodi yn Atodiad 3 i'r adroddiad petai'r cais yn llwyddiannus.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Dale Edmunds (Yr Ymgeisydd) a'i wahodd i gyflwyno ei gais i'r Pwyllgor. Caiff ei gyflwyniad ei grynhoi yma;

Dywedodd Mr Edmunds mai'r model safonol diweddaraf yw'r cerbydau hyn. Maent yn 100% eco gyfeillgar, heb allyriadau carbon ac yn gyfreithiol i fod ar y ffyrdd; maent wedi'u creu yn Amsterdam; maent yn cael eu defnyddio mewn 30 o wahanol wledydd gan gynnwys 200 ohonynt yn Lisbon. Nid oedd unrhyw achosion o

ddamweiniau nac anafiadau wedi dod i law hyd yn hyn. Maent yn gadarn ac yn cyrraedd cyflymder o 50 kya. Ychwanegodd ei fod wedi ymchwilio i’r cerbydau am dros flwyddyn a'i fod wedi casglu diddordeb gan fusnesau gan gynnwys 2 westy mawr yng Nghaerdydd. Os yn llwyddiannus, dywedodd Mr Edmunds y bydd yn cyflogi 8 person i gychwyn, gyda’r gobaith o gynyddu i 18 person; bydd pob gyrrwr yn destun archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf a Diogelwch Rhag Tân.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau fel a ganlyn.

Gofynnodd Aelodau a oedd y cerbydau hyn yn amddiffyn teithwyr mewn achos o ddamwain a dywedwyd nad oedd ganddynt amddiffyniad o’r fath. Dywedwyd wrth Aelodau bod teithwyr yn eistedd yn uchel i fyny yn y cerbydau ac roedd yn annhebygol y byddent yn dioddef effaith fawr pe bai’r cerbyd yn cael ei fwrw gan gar. Nid oed unrhyw ddamweiniau nac anafiadau wedi dod i'r amlwg.

Gofynnodd Aelodau ynghylch y briff diogelwch y byddai’r gyrwyr yn ei roi i’r teithwyr a dywedwyd wrthynt y byddai gyrwyr yn ymgymryd â hyfforddiant arbenigol a fyddai wedi’i ddylunio yn arbennig ar gyfer cerbydau Tuk Tuk, gan roi gwybodaeth i’r teithwyr am fesurau diogelwch megis cadw breichiau a choesau y tu fewn i’r cerbyd.

Gofynnodd Aelodau a fyddai modd gwneud y rheilin ar ochr y cerbyd yn uwch er mwyn rhoi mwy o amddiffyniad a dywedwyd y byddai’r cerbydau yn dod yn eu ffurf arferol ac ni fyddai cyfle i godi’r rheilin yn uwch.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn cyfeirio at 8 aelod o staff a gofynnwyd faint o gerbydau Tuk Tuk a gyrwyr bydd. Dywedwyd wrth Aelodau y byddai 3 cherbyd i gychwyn, 1 gyrrwr llawn amser a 6 gyrrwr rhan amser.

Gofynnodd Aelodau faint o deithiau byddai’n cael eu cynnal bob dydd a dywedwyd wrthynt y byddai hynny'n dibynnu ar a fyddai teithiau llawn neu hanner diwrnod wedi'u harchebu. Ar gyfartaledd gellir cynnal 4-6 taith y dydd gan ddefnyddio'r 3 cherbyd.

Gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth am fynediad i’r anabl a dywedwyd wrthynt y byddai un gris ym mhob cerbyd i helpu pobl i fynd i mewn i’r cerbyd, ond ni fyddai’r cerbydau yn cario cadeiriau olwyn.

Gofynnodd Aelodau pa hyfforddiant diogelwch oedd wedi cael ei gynnal, a dywedwyd wrthynt bod gan y cerbydau gymeradwyaeth Math EC. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw wiriadau diogelwch pellach wedi cael eu cynnal at ddibenion cymharu diogelwch â char arferol, dywedodd Mr Edmunds nad oedd yn ymwybodol o'r rhain, ond bod y cerbydau yn gyfreithiol i fod ar y ffyrdd a chaent eu defnyddio mewn dinasoedd eraill gan gynnwys Llundain, Manceinion, Caer ac eraill. Ychwanegodd fod yn hyn gyfle euraid i Gaerdydd gynnig dewis eco gyfeillgar o deithio i dwristiaid.

Gofynnodd Aelodau a oedd gwregys yn y cerbydau a dywedwyd wrthynt yr oedd

gwregys ynddynt.  Gofynnodd Aelodau a oeddynt yn addas i dywydd garw a dywedwyd wrthynt bod ganddynt orchuddion rhag glaw.

Gofynnodd Aelodau pryd fyddai'r ymgeisydd yn bwriadu dechrau'r busnes petai ei gais yn cael ei gymeradwyo.  Dywedodd Mr Edmunds y byddai wedi colli'r rhan fwyaf o eleni, felly byddai'n gobeithio gweithredu rhwng mis Chwefror a Hydref.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y cais.  Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod nifer o bryderon ynghylch diogelwch ac amddiffyn mewn achos o drawiad, er yr oedd y rhan fwyaf o'r Aelodau yn cefnogi'r cais.

PENDERFYNWYD:

i. bod cerbydau Tuk Tuk yn addas i'w trwyddedu fel cerbydau llogi preifat a chymeradwywyd iddynt gael eu trwyddedu;
ii. Cymeradwyo amodau trwyddedu cerbyd llogi preifat yn benodol i'r cerbydau Tuk Tuk y manylir arnynt yn Atodiad E i'r adroddiad.

5 : YSTYRIED DEFNYDDIO GWYDR TYWYLL MEWN PERTHYNAS Â CHERBYDAU TRWYDDEDIG

Dywedwyd wrth Aelodau bod yr amod trwyddedu canlynol ar hyn o bryd yn berthnasol i gerbydau hacni a cherbydau llogi preifat:

'Ffenestr flaen a ffenestri:
Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da a glân a heb unrhyw ddifrod. Rhaid i'r ffenestr flaen adael o leiaf 75% o'r golau dreiddio drwyddi a rhaid i'r holl ffenestri eraill adael 70% o'r golau dreiddio drwyddynt.'

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a ddylai'r amod barhau i fod yn berthnasol i gerbydau trwyddedig.

Dywedodd Swyddogion Trwyddedu eu yn fwyfwy ymwybodol bod perchenogion cerbydau trwyddedig newydd yn gorfod prynu gwydr newydd (sy'n costio rhwng £1,000 a £2,000) ar gyfer ffenestri nad ydynt yn cydymffurfio â'r amod uchod. Mae'n ymddangos bod nifer o gerbydau newydd, yn enwedig cerbydau o fath MPV, yn cael eu cynhyrchu â gwydr tywyll fel y safon arferol yng nghefn y car, sy'n cyfyngu ar y dewis o gerbydau mwy newydd y gellir eu trwyddedu, a gallai hyn, o bosibl, arwain at orfod prynu cerbydau hŷn neu gerbydau â manyleb is.

Dywedodd Swyddogion Trwyddedu eu bod wedi ymgynghori â Heddlu De Cymru ac nid oedd unrhyw sail tystiolaeth i gefnogi'r amod presennol; nid oes gan unrhyw awdurdod arall yng Nghrymu'r amod hwn.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a chaent eu crynhoi fel a ganlyn.

Dywedodd Aelodau fod rhai pryderon o ran diogelwch a thrafodwyd y lefel o dintio a fyddai'n dderbyniol.  Eglurodd swyddogion eu bod wedi ymgynghori â grwpiau megis ysgolion a grwpiau anabledd sy'n ffafrio ffenestri tywyll, gan nodi bod y grwpiau hyn yn bennaf yn defnyddio tacsis yn ystod y dydd.   Ar ôl trafod, penderfynodd Aelodau y byddai lefel tintio safonol y gwneuthurwyr yn briodol.

Nododd yr Aelodau nad oedd gan Heddlu De Cymru unrhyw bryderon ynghylch y gwydr tywyll.

Nododd Aelodau fod gwneuthurwyr yn cynhyrchu ceir â ffenestri tywyll fel safon arferol mewn modelau â manyleb uwch.

Nododd yr Aelodau'r rhestr o awdurdodau sy'n caniatáu gwydr tywyll mewn tacsis, gan nodi bod Caergrawnt yn ei ganiatáu cyhyd â bod Teledu Cylch Cyfyng yn y cerbyd.

Ystyriodd Aelodau yr arolwg a wnaed â gyrwyr tacsis, sy'n nodi bod 62% o blaid y cais, ac yn nodi hefyd mai ond 16 gyrrwr a gyflwynodd yr arolwg. Eglurodd Swyddogion eu bod yn cael galwad o leiaf unwaith yr wythnos ynghylch y mater.

PENDERFYNWYD: Dileu'r amod presennol ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat a'i ddisodli â'r canlynol:

'Ffenestr flaen a ffenestri'
'Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da a glân a heb unrhyw ddifrod. Rhaid i bob ffenestr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â throsglwyddo golau. Tintiau gwneuthurwyr cerbydau gwreiddiol yn unig fydd yn cael eu caniatau ar y ffenestri cefn. Rhaid gosod Teledu Cylch Cyfyng a gymeradwyir gan y Cyngor yn y cerbyd'

Daeth y cyfarfod i ben am 2.20 pm